WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Sir Gaerfyrddin**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 634A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Gaerfyrddin fel rhan o waith a wnaethpwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn derbyn dim cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod ar gyfer adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, ystyrir bod Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, a lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a wnaeth y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Alison Lewis a Gareth Lewis, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Y Cynnwys

Er eu bod yn cefnogi'r gwaith trosolwg a chraffu, mae angen cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer y swyddogaeth graffu er mwyn helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Er eu bod yn cefnogi'r gwaith trosolwg a chraffu, mae angen cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer y swyddogaeth graffu er mwyn helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi creu diffiniad clir o rôl trosolwg a chraffu ond mae angen iddo wella'r amgylchedd lle mae'r gwaith craffu yn digwydd er mwyn ei helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol 6

Mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael ei ddarparu, a hynny drwy gynllunio'r agenda'n well ac ymgysylltu â'r cyhoedd 7

Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith y gwaith trosolwg a chraffu, ac ni all ddangos pa mor effeithiol yw hynny yn gyffredinol 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol 10

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Gyda'r 22 o gynghorau yng Nghymru, buom yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i'r heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd i'w gweithgareddau craffu. Roedd y rhain yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r cynghorau'n craffu ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, megis y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn buom hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd unrhyw gynigion perthnasol ar gyfer gwella a gyhoeddwyd mewn unrhyw adroddiadau lleol, gan gynnwys y rheini yn ein hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Pennu Newidiadau Arwyddocaol i Wasanaethau yn 2016-17.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol ar ran aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd ymlaen; a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth flaenorol o Wella Craffu.

4 Fel sylfaen i'n canfyddiadau, fe wnaethon ni seilio ein dull adolygu ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Llywodraeth Leol yr oedd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru wedi eu llunio ac wedi cytuno arnynt yn sgil ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!**

5 Fe wnaethon ni gynnal ein gwaith maes ym mis Hydref a mis Tachwedd 2017. Fe wnaethon ni adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion a chynnal grwpiau ffocws â chynghorwyr. Fe wnaethon ni hyn er mwyn deall eu barn ar drefniadau craffu presennol Cyngor Sir Gaerfyrddin (y Cyngor). Yn benodol, sut mae'r Cyngor yn mynd ati ac yn bwriadu ymateb i'r heriau a nodir uchod.

6 Fe wnaethon ni wylio sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd personol a ddarparwyd i gynghorwyr i'w cynorthwyo gyda'u rôl graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Daethon ni i'r casgliad eu bod yn cefnogi'r gwaith trosolwg a chraffu, ond mae angen cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer y swyddogaeth graffu er mwyn helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol. Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:

a. mae’r Cyngor wedi creu diffiniad clir o rôl trosolwg a chraffu ond mae angen iddo wella’r amgylchedd lle mae’r gwaith craffu yn digwydd er mwyn ei helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol;

b. mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae’r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael ei ddarparu, a hynny drwy gynllunio’r agenda’n well ac ymgysylltu â'r cyhoedd; ac

c. nid yw’r Cyngor yn gwerthuso effaith y gwaith trosolwg a chraffu, ac ni all ddangos pa mor effeithiol yw hynny yn gyffredinol.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae’r tabl isod yn cynnwys ein cynigion am ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu fel ei fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Eitem 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Adolygu strwythur y pwyllgor trosolwg a chraffu i sicrhau ei fod yn gallu ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.** |
| **C2** | **Egluro rôl aelodau’r Bwrdd Gweithredol ym mhroses y pwyllgor trosolwg a chraffu er mwyn sicrhau bod pwyllgorau’n cyflawni eu rôl o ran dal y Weithrediaeth i gyfrif.** |
| **C3** | **Dweud yn benodol yn yr adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i’r pwyllgor trosolwg a chraffu pam mae’r pwyllgor yn cael yr wybodaeth a sut mae hyn yn ymwneud â rôl y pwyllgor craffu.** |
| **C4** | **Sicrhau mai Cadeiryddion ac aelodau'r pwyllgor sy’n rheoli agendâu’r pwyllgor drwy benderfynu a chytuno ar gynnwys a blaenoriaethu’r materion y mae’r pwyllgor craffu yn edrych arnynt er mwyn cael digon o amser i graffu’n fwy effeithiol.** |
| **C5** | **Canfod a gweithredu ffyrdd newydd o annog y cyhoedd i ymwneud fwy â’r maes trosolwg a chraffu.** |
| **C6** | **Sefydlu trefniadau ar gyfer asesu pa mor effeithiol yw'r gwaith trosolwg a chraffu a beth yw ei effaith.** |

# Adroddiad manwl

## Er eu bod yn cefnogi'r gwaith trosolwg a chraffu, mae angen cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer y swyddogaeth graffu er mwyn helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

### Mae’r Cyngor wedi creu diffiniad clir o rôl trosolwg a chraffu ond mae angen iddo wella’r amgylchedd lle mae’r gwaith craffu yn digwydd er mwyn ei helpu i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol;

9 Mae gan y gwaith trosolwg a chraffu rôl bendant yn y Cyngor. Mae'r cynghorwyr a’r swyddogion yn ystyried bod craffu yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu’r Cyngor. Ond yn y camau cynnar y mae'r Cyngor o ran paratoi ar gyfer yr heriau llywodraethu sy'n gysylltiedig â gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, nid yw eto wedi dechrau ar y gwaith o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r cynlluniau i ymgorffori a chryfhau cyfraniad y gwaith craffu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r trefniadau cydweithio rhanbarthol yn y camau cynnar.

10 Mae'r strwythur trosolwg a chraffu yn dal yn seiliedig ar drefniadau adrannol blaenorol. Nid yw’n gyson â chylch gwaith y prif swyddog cyfredol na phortffolios y Bwrdd Gweithredol cyfredol. Dywedodd y swyddogion a’r aelodau wrthym fod hyn yn golygu ei bod yn anodd penderfynu ba bwyllgor trosolwg a chraffu y dylai eitemau fynd, a pha brif swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ddylai fynychu pa bwyllgorau. Nid oes raid i bwyllgorau craffu fod yn gyson â’r Bwrdd Gweithredol a/neu bortffolios adrannol, a gwyddom fod rhai cynghorau wedi strwythuro eu pwyllgorau yn drawsbynciol neu thematig. Ond oherwydd pryderon cynghorwyr a swyddogion, a gan fod amser wedi mynd heibio ers yr adolygiad diwethaf o'r strwythur yn 2012, byddai’n amserol i'r Cyngor ystyried a yw ei strwythur trosolwg a chraffu yn dal yn briodol.

11 Wrth weithio i wella effeithiolrwydd cyfarfodydd y pwyllgor craffu, mae'r Cyngor wedi mynd ati’n ddiweddar i gyflwyno cyfarfodydd ymlaen llaw. Mae’r rhain yn gymorth i aelodau’r pwyllgor baratoi ar gyfer y cyfarfodydd trosolwg a chraffu, ac mae nodiadau o'r cyfarfod ymlaen llaw yn gymorth i Gadeiryddion weithio’n fwy effeithiol. Mae eitem ar yr agenda, o’r enw ‘y diweddaraf am gamau craffu’ yn galluogi'r pwyllgor i weld beth yw cynnydd ei gamau gweithredu.

12 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi’n glir beth yw’r rolau trosolwg a chraffu i aelodau’r pwyllgor, aelodau’r Bwrdd Gweithredol a swyddogion y Cyngor yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Ond fe ddywedodd aelodau'r pwyllgor wrthym nad oeddent yn siŵr beth yw rôl aelodau’r Bwrdd Gweithredol yn y broses trosolwg a chraffu. Er enghraifft, mae dryswch o ran sut i wahodd aelodau'r Bwrdd Gweithredol i bwyllgorau a ph’un a ddylen nhw gyflwyno adroddiadau ai peidio. Y

mae’r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn dal swyddogion i gyfrif, ond prin yw’r enghreifftiau o aelodau’r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiadau, yn cymryd cwestiynau ac yn cael eu dal i gyfrif yn y pwyllgorau. Mae angen i aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau’r pwyllgor trosolwg a chraffu ddeall yn well beth yw rôl swyddogion ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn y cyfarfodydd trosolwg a chraffu. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y swyddogaeth graffu wedi bod yn un sydd wedi’i harwain ormod gan swyddogion ac mae’n gweithio gyda’r cynghorwyr i fynd i’r afael â hyn.

13 Roedd y swyddogion yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau’r pwyllgor craffu. Fe welson ni hyn fel rhan o'r adolygiad. Pan fo pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi gweld nad oes digon o wybodaeth a data ganddynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol, maen nhw wedi gofyn am ragor o wybodaeth.

14 Mae cyflwyniadau gan gyrff allanol mewn cyfarfodydd trosolwg a chraffu yn cael eu rhoi ar ddechrau'r cyfarfodydd. Yn y cyfarfodydd a welson ni, nid oedd yr wybodaeth ar gael ymlaen llaw ac nid oedd terfyn amser ar yr eitemau sydd ar yr agenda. Roedd hyn yn golygu bod y cyflwyniadau’n cymryd amser anghymesur yn y cyfarfod, gan adael llai amser i graffu.

15 Nid yw bob amser yn glir pam mae rhai eitemau ar yr agenda. Er mwyn i aelodau'r pwyllgor fod yn effeithiol, mae angen iddyn nhw fod yn glir pam mae'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau. Ar hyn o bryd, mae’r adroddiadau i’r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cynnwys nodyn sy’n dweud: 'er gwybodaeth i'r pwyllgor’ neu ‘gofynnir i'r pwyllgor nodi’, heb reswm clir pam bydd hyn yn gymorth iddynt gyflawni eu rôl trosolwg a chraffu.

16 Nid oedd aelodau’r pwyllgor trosolwg a chraffu yn gwybod yn iawn sut roedd y pwyllgorau’n manteisio ar waith archwilio, arolygu a rheoleiddio. Er bod rhai pwyllgorau yn gweld gwybodaeth gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, prin oedd y dystiolaeth fod blaenraglenni gwaith trosolwg a chraffu yn ystyried gwaith archwilio mewnol neu waith Swyddfa Archwilio Cymru.

17 Mae swyddogion gwasanaethau democrataidd y Cyngor yn darparu cymorth pwrpasol i’r swyddogion trosolwg a chraffu. Dywedodd swyddogion wrthym fod y cymorth i'r gwaith craffu yn dynn, ac mae swyddi gwag yn y tîm. Roedd aelodau’r pwyllgor trosolwg a chraffu yn canmol cymorth y swyddogion gwasanaethau democrataidd.  Ond mae’r cynghorwyr yn pryderu am gapasiti’r swyddogion i roi cymorth i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn y dyfodol. Mae prosiect newid yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae’n edrych ar y model gorau ar gyfer cefnogi'r swyddogaeth trosolwg a chraffu.

## Mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae’r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael ei ddarparu, a hynny drwy gynllunio’r agenda’n well ac ymgysylltu â'r cyhoedd

18 Mae blaenraglenni gwaith clir ar gael i bob pwyllgor trosolwg a chraffu, ac maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor. Mae pwyllgorau’n defnyddio blaenraglen waith y

Bwrdd Gweithredol fel sail i'w blaenraglenni eu hunain. Mae adolygu'r rhaglen waith yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae eitemau sefydlog y flaenraglen waith yn ymdrin â swyddogaethau allweddol y Cyngor, er enghraifft: monitro perfformiad a'r gyllideb, a'r Adroddiad Blynyddol drafft a'r Cynllun Gwella. Cytunir ar y rhain fel rhan o adolygiad blynyddol gyda'r Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion. Mae mynd ati fel mater o drefn i atgyfeirio adroddiadau gan y Bwrdd Gweithredol yn golygu weithiau bod llawer o eitemau ar agendâu'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae hyn yn cyfyngu ar faint o amser sydd ar gael i bob eitem, a sut mae'r pwyllgorau'n gallu casglu tystiolaeth gan amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae hyn yn gwanhau'r broses o graffu'n effeithiol.

19 Mae angen i gadeiryddion ac aelodau'r pwyllgor sicrhau mai nhw sy'n rheoli agendâu'r pwyllgor, a hynny drwy benderfynu a chytuno ar y cynnwys. Fel rhan o'i flaenraglenni gwaith, mae pob pwyllgor hefyd yn nodi:

- eitemau sy'n cael eu cario drosodd o raglenni gwaith blaenorol;
- eitemau a gynigir ar gyfer y rhaglen waith eleni;
- eitemau sefydlog blynyddol;
- sesiynau datblygu;
- ymweliadau â safleoedd; a
- adolygiadau gorchwyl a gorffen.

Ond nid yw'r holl eitemau a nodir yn cael eu rhoi ar yr amserlen.

20 Gallai amrywiaeth ehangach o dystiolaeth fod yn sail i waith y pwyllgorau trosolwg a chraffu. Yn benodol, tynnodd y cynghorwyr sylw at ddiffyg cyfraniad gan y cyhoedd i'r gwaith trosolwg a chraffu. Mae'r Cyngor yn adolygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[1]. Dywedodd aelodau'r pwyllgor trosolwg a chraffu a'r swyddogion wrthym ei bod yn her cynnwys y cyhoedd yn y gwaith craffu. Mae eitem sefydlog ar yr agenda ymhob cyfarfod ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd, ond nid ydynt mewn gwirionedd yn cael llawer o gwestiynau gan y cyhoedd. Nid yw'r Cyngor yn gweddarlledu cyfarfodydd y pwyllgor trosolwg a chraffu. Mae hyn eto yn golygu bod llai o gyfle i'r cyhoedd gyfrannu. Yng nghyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu y buon ni'n eu harsylwi, nid oedd y Cadeiryddion yn eu gwneud yn eglur ar ddechrau'r cyfarfod pwy oedd yn bresennol a beth oedd eu rôl yn y cyfarfod. Petai'r Cadeiryddion yn gwneud hyn, byddai hynny'n gymorth i unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i'r cyfarfod.

21 Yn y pwyllgorau trosolwg a chraffu y buon ni'n eu harsylwi, amrywiol oedd ymgysylltiad yr aelodau ac roedd rhai aelodau'n gadael cyn diwedd y cyfarfodydd. Petai'r aelodau'n paratoi'n well ar gyfer cyfarfodydd, yn cymryd rhan ystyrlon yn y

[1] Cyfranogaeth Cymru - **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

drafodaeth, a chael lefel presenoldeb llawn, byddai hynny i gyd yn gwella ansawdd y cyfarfodydd.

22 Mae hyfforddiant ar gael i'r cynghorwyr ar arferion craffu a sgiliau cadeirio. Mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynefino, yn eu plith cynnwys cynghorwyr yn y gwaith o ddylunio’r rhaglen gynefino. Ond mae lefel presenoldeb y cynghorwyr yn y sesiynau hyfforddi wedi bod yn isel - er enghraifft, dim ond tri chynghorydd ddaeth i'r sesiwn cyflwyniad i gadeirio cyfarfodydd craffu a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017, ac 20 o gynghorwyr ddaeth i'r hyfforddiant ar benderfyniadau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol ar 21 Gorffennaf 2017. Gallai’r cynghorwyr ddeall yn well beth yw eu rôl yn y swyddogaeth trosolwg a chraffu drwy fanteisio ar yr hyfforddiant a’r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt.

23 Prin yw’r hyfforddiant ar yr heriau i graffu yn y dyfodol, er enghraifft ar graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a threfniadau gwasanaethau ar y cyd. Soniodd y cynghorwyr wrthym am gamau a allai eu helpu, gan gynnwys gwylio cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu mewn cynghorau eraill, a siarad â chadeiryddion pwyllgorau mewn cynghorau eraill.

## Nid yw’r Cyngor yn gwerthuso effaith y gwaith trosolwg a chraffu, ac ni all ddangos pa mor effeithiol yw hyn yn gyffredinol

24 Mae rhai enghreifftiau, cyn etholiad y cyngor yn 2017, o graffu yn cyfrannu at ddatrys problemau hysbys, er enghraifft mewn perthynas ag absenoldeb salwch. Ond gan fod y pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi dechrau’n hwyr yn y flwyddyn ddinesig hon, yn dilyn yr etholiad, mae hynny wedi golygu bod enghreifftiau mwy diweddar yn fwy prin.

25 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o’i gynnydd o gymharu â’r cynllun gweithredu a’r argymhellion a oedd yn deillio o Astudiaeth Wella Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, sef ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ a gynhaliwyd ym mis Mai 2014 (gweler Atodiad 2). Ac nid oes gan y Cyngor chwaith ddull ffurfiol o werthuso pa mor effeithiol yw'r swyddogaeth trosolwg a chraffu. Felly nid yw’r Cyngor yn gallu asesu beth yw effaith gyffredinol y swyddogaeth trosolwg a chraffu, na pha mor effeithiol ydyw.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

Eitem 2: canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. 'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae trefniadau gwella'r cyngor yn diffinio'n glir ac yn gwerthfawrogi rôl craffu<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgor Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr Aelodau ac yn arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br>vii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae cyfathrebu effeithiol yn nodweddiadol o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Eitem 3: argymhellion **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| A3 Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau. |
| A4 Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A6 Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| A7 Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cynghorau. |
| A8 Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau. |
| A9 Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru